| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y PWYLLGOR:** | **17 RHAGFYR 2012** |
| **TEITL:** | **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |

**1)** Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar 18 Hydref ar gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn. Derbyniwyd ef gan y Pwyllgor a gwnaed argymhellion pellach i'r Cyngor Sir i estyn cylch gorchwyl y Pwyllgor fel a ganlyn:

- *Ei fod yn ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor i gynnwys cyfrifoldebau am raglen hyfforddi a datblygu'r Aelodau, gan gynnwys sgiliau a chefnogaeth TG;*
- *Bod y Pwyllgor yn cynnal tri o gyfarfodydd cyffredinol pob blwyddyn ddinesig yn ogystal â'i gyfarfod blynyddol, gyda'r hawl i drefnu rhagor o gyfarfodydd fel y cyfyd yr angen.*

Mabwysiadwyd yr argymhellion hyn gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2012.

Ar hyn o bryd mae'r pwyllgor yn canolbwyntio ar ddatblygu a hyfforddi Aelodau a bwrw ymlaen gyda gwaith y Gweithgor Datblygu Aelodau. Canolbwyntir hefyd ar fwrw ymlaen gyda'r gwaith mewn perthynas â chwrdd â gofynion Siarter Cymru ar Gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.

**2) Symud Ymlaen**

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhoi cymorth cymheiriaid i adolygu cynnydd y Cyngor o ran cwrdd â'r safonau a amlinellir yn y Siarter. Mae hyn yn golygu bod angen i'r Cyngor gynnal hunan asesiad o'r gofynion fel sail ar gyfer paratoi cynllun gweithredu i'w gwblhau erbyn Ionawr 2013. Bydd hyn yn llywio'r amserlen ar gyfer cyflwyno cais am Statws Siarter ac a oes modd cyflawni hynny cyn Mai 2013.

Fel rhan o'r cymorth gan CLlLC darperir cefnogaeth hefyd i adolygu arferion gweithio, systemau ac adnoddau cyfredol i gefnogi Aelodau mewn paratoad ar gyfer y Cyngor newydd.

Nodir y dylai'r cyfarfod nesaf ganolbwyntio ar y materion isod:

- Adroddiad gwaith ar gais am Siarter Datblygu Aelodau;
- Y ddarpariaeth TGCh ar gyfer Aelodau gan gynnwys gwefan y Cyngor i hyrwyddo democratiaeth;
- Goblygiadau i'r Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â chynigion cyllidebol 2013/14.
- Anwytho Aelodau (Mai 2013 ymlaen).

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd Dros Dro**
**07/12/12**

**Huw Jones**

**07.12.12**